YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XXXIX. RHAGFYR, 1939 RHIF 12.

George Eyre Evans.

GAN Y PRIFATHRO W. S JONES, M.A., M.Sc.

YN gynnar fore dydd Iau, Tachwedd 9, gorffennodd un o gymeriadau bynotaf Cymru ei yrfa ddaearol. Y cynulliad cyhoeddus olaf a fynychodd G.E.E. oedd gwasanaeth yng Nghapel Parcyfelfed, Caerfyrddin rai wythnosau cyn ei farw. Achwynodd iddo gael pwl caled o ddiffyg anadl ar y ffordd yno. Wedi iddo ddychwelyd adref ni fu dros drothwy ei ddrws wedyn hyd nes y cludwyd ei gorff ar Dachwedd 14 i Grematorium Pontypridd i'w losgi. Ar y 23 o'r unrhyw fis fe wasgarwyd ei lwch ar feddau'r teulu ym mynwent Alltyblaca, dyna a ddymunai.

Mab i'r diweddar Barch. Athro D. L. Evans—" yr hen Broffesor "—ac Ophelia Catherine Evans (g. Powell) oedd G.E.E. O ardal Llanybydder y deilliodd ei dad ac ni anghofia neb a'i adwaenai ei wynepryd golygus ond awdurdodol. Hanai mam G.E.E. o deulu Gwyddelig urddasol. Nid rhyfedd ydyw i'r mab felly etifeddu teithi personol eithriadol. Tynnai ei bresenoldeb sylw mewn unrhyw gymdeithas. Yr oedd yn hardd ei wedd ac yn fyw ei ysbryd. Gwefreiddiai bob cyfeillach y byddai ynddi : ni welais ef erioed yn drist a phruddglwyfus. Ystyriai rhai ef yn ddyn od : gwnawn hynny fy hun flynyddoedd yn ôl. Ond cefais wedi hynny y mwynhad a'r anrhydedd o fyw y drws nesaf iddo am flynyddoedd, ac wedi i mi dreiddio drwy'r plisg a deall ei ffordd deuthum nid yn unig i allu dygymod a'i ddulliau anarferol ond i'w hoffi a'i garu'n fawr. Wedi ei adnabod gwelais ei fod yn ddyn serchus iawn, a phe cawn ddewis fy nghymydog ni ddewiswn neb o flaen fy hen gyfaill annwyl. Wedi myned i gysegr ei enaid gwelais yno ddynoliaeth fraf a theithi rhagorol. Beth oedd prif nodweddion ei gymeriad ? Wele rai ohonynt :—

Gwasanaeth a Gweithgarwch diarbed. Nid diogyn oedd G.E.E., eithr gweithiwr rhwydd, cyson a chaled. Codai'n fore at ei waith

a cheid ef wrth ei ddesg yn ysgrifennu cyn borebryd. Llafuriai am oriau bob dydd hyd y diwedd ond ni anghofiai ei ddyletswyddau at ei gymydogion a sefydliadau dyrchafol. Ai i'w wely yn gynnar ac o etifeddu corff iach, cryf a gofalu amdano llwyddodd i weithio a gwasanaethu yn dda ac yn effeithiol hyd derfyn ei daith hir. Yn ystod ei afiechyd olaf fe ysgrifennodd ei 723ydd erthygl i'r *Carmarthen Journal* o dan y pennawd "*Scouters, Scouts and Scouting,*" a chyhoeddwyd honno y dydd y bu ei hawdur farw. Hynafiaethydd oedd o duedd ond ni chyfyngai ei sylw i'r pwnc hwnnw. Bu am flynyddoedd yn Archwilydd (Chwilotwr) i'r Comisiwn Cofadeiliau Hynafol dros Gymru a Mynwy. Cerddai i bob cwr o'r wlad yn ei ymchwil am hynafiaethau : mynnai iddo gerdded dros 30,000 milltir. Ni wn a dderbyniai gyflog bryd hwnnw ai peidio, ond fe wn iddo wneud y rhan fwyaf o'i waith bendithiol drwy ei oes yn ddi-dâl. Nid gwas cyflog oedd G.E.E. ond gwasanaethwr o'i fodd. "Nid oes rhodd namyn o fodd" medd hen ddihareb, a rhoi ei wasanaeth o'i fodd a wnaeth G.E.E. bron drwy ei oes. Cyfansoddai'n rhwydd mewn arddull swynol. Dyna a'i galluogodd i gyhoeddi nifer o lyfrau gwerthfawr a darllenadwy. Ymhlith ei gynhyrchion llenyddol gellir nodi'r cyfrolau canlynol :—*Vestiges of Protestant Dissent*, *Midland Churches*, *Cardiganshire*, *Lampeter* a *Lloyd Letters*. Ynddynt oll fe welir ffrwyth llafur caled a chwaeth lenyddol eithriadol.

Er's blynyddoedd bellach teimlasai ddiddordeb dwfn ym mudiad y *Boy Scouts*. Yn hyn o gylch eto nid cynnil fu ei ran a'i lafur. Yr oedd yn Ddirprwywr Cynorthwyol dros Gymru ac yn Benddirprwywr dros ei Sir ei hun. Derbyniodd y *Silver Wolf*—anrhydedd mwyaf y mudiad—yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth. Darlithiai dros yr holl wlad ar ran y mudiad hyd nes iddo gyrraedd ei bedwar ugain oed. Nid darlithydd sych mohono ychwaith. Yr oedd dawn siarad ganddo. Yr oedd medr eithriadol ynddo i swyno plant drwy ei areithiau byw, disgrifiadol : yr oeddynt yn dygyfor o ddiddordeb. Crwt oedd G.E.E. ei hun hyd ei ddiwedd. Yn wir, yr "hen grwt" yr arferai'r Parch. John Davies, Tanycoed, ei alw. Ni ddaeth llesgedd henaint i amharu ei gorff na'i gof.

Byddai peidio â son am ei waith gorchestol ynglŷn ag Amgueddfa Caerfyrddin a'i thrysorau amhrisiadwy yn bechod anesgusodol. Efe a gasglodd beth wmbredd o'i phethau gwerthfawr, a gellir dweud yn ddibetrus nad oes erbyn hyn Amgueddfa gyfoethocach yng Nghymru gyfan ag eithrio'r un Genedlaethol yng Nghaerdydd. Yn wir, nid oes nemor Amgueddfa yn yr holl wlad sydd yn rhagorach ei thrysorau. Bu'n Ysgrifennydd Mygedol iddi am 33 mlynedd. Cafodd freuddwyd am gartref teilwng a pharhaol i'r Amgueddfa yng Nghastell Caerfyrddin. A gaiff y Cyngor Sir gystal gweledigaeth ?

Fe welir bellach mai gwasanaeth oedd byd ein gwrthrych ; dyna oedd un o'i arwyddeiriau mawrion. Pan ymsefydlodd ei dad, ei fodryb, ei chwaer (o fendigedig goffadwriaeth) ac yntau yn Aberystwyth aethant hwy a nifer o Undodiaid selog y Brifysgol ynghŷd â chychwyn achos Undodaidd yn y lle. Bu'n pregethu yno bob Sul am flynyddoedd yn ddi-dâl. Wedi iddo ymfudo i Gaerfyrddin bu hyd ei farw yn un o bileri'r achos yno hefyd. Daethai o bellteroedd daear adref erbyn y Sul, ac ni chollai gydgynulliad er dim. Credai hefyd mewn defosiwn ac urddas mewn gwasanaeth crefyddol, ac ni foddhai dim ef yn fwy na gweddeidd-dra mewn capel neu eglwys.

Yr oedd yn un o Lywodraethwyr Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol, a'i ddiddordeb ymhob un ohonynt yn fawr a'i gysondeb yn eu cyfarfodydd bron yn eithriadol. Dyma un cyfeiriad ato a geir yn *Hanes* y Llyfrgell a gyhoeddwyd yn 1937—

> " Mr. George Eyre Evans became a member of the ' Welsh Library Committee ' in October, 1898. He attended frequently and was an enthusiastic member.
>
> " His gifts to the National Library have been numerous and have been spread over the years from that time to the present. They include collections of autograph letters, albums of historical and antiquarian interest, deeds and documents, printed volumes, press-cuttings, etc., mainly relating to Cardiganshire and Carmarthenshire. His contributions total well over one thousand items."

Oni chollodd y Brifysgol gyfle da i'w anrhydeddu ei hun drwy roddi gradd i un o gymwynaswyr mawr Cymru ? Cafodd ei gyddrefwyr yng Nghaerfyrddin well gweledigaeth. Sylweddolasant werth ei wasanaeth a'r urddas a roddai ei bersonoliaeth a'i waith ar y dref. Yn 1937 fe'i gwnaed yn *freeman* o'r hen Fwrdeisdref. Ymfalchïai G.E.E. yn fawr yn yr anrhydedd hwn, canys anodd ydyw hyd yn oed i'r mwyaf eiddgar weithio'n barhaus heb ambell arwydd o werthfawrogiad, a bu'r anogaeth hon yn llawenydd mawr iddo.

Caredigrwydd a Haelioni. Un caredig iawn oedd G.E.E. Cynorthwyodd ddegau o ddynion ifainc ar ddechrau eu gyrfa drwy gyfarwyddyd, ie a——. Pwy a wyr faint ei haelioni ? Gwn lawer am y ddau nodwedd hwn yn ei waed. Fel cymydog iddo gwelais lawer, clywais lawer a phrofais lawer o'i ddaioni. Cymwynaswr oedd o'i goryn i'w wadn. Fel pob gweithiwr da byddai'n rheolaidd iawn yn ei ddull o fyw. Pan oedd yn byw ger Penparcau arferai fyned i dref Aberystwyth droeon yn yr wythnos. Wrth ei fyned heibio i'n tŷ ni chwi a'i clywech yn gweiddi—" *Is there anything I can do for you, Mrs. Jones ?* " Nid oedd myned i'r dre gyn rhwydded

bryd hynny ag ydyw heddiw, a da weithiau fyddai cael arbed siwrnai arbennig.

Yn ystod y rhyfel mawr fe aeth YR YMOFYNNYDD i ddyled ac wedi i'r heldrin ddarfod gosodwyd treth ar bob cynulleidfa i'w ddileu. Ar y ffordd adref o'r gwasanaeth ryw fore Sul mynegais wrtho fod *levy* o dri gini wedi ei rhoi ar yr achos bach yn Aberystwyth, a gofynnais "*Would you like to contribute, Mr. Evans?*" "*O yes, yes,*" oedd ei ateb diatreg, "*I will give you fifteen shillings.*" Go dda!—at gyfanswm o dri gini. Fel arfer cydgerddem adref y Sul canlynol, ac ar y ffordd dywedodd yn sydyn—"*You remember I gave you fifteen shillings last Sunday towards liquidating the debt on the* YMOFYNNYDD." "*Yes,*" meddwn innau. "*Well,*" yr atebodd, "*I have managed to save half-a-crown during the week and I will add that to it.*" Dyna i chwi ddyn yn gwneud y mater yn bwnc cydwybod ac yn cofio dyletswydd. Ond nid dyna derfyn yr hanes. Y trydydd Sul a ddaeth a'r gyfeillach felys fel arfer. Myfi'r tro hwn a gododd y cwestiwn. Dywedais wrtho yn Saesneg, "Fe gofiwch i chwi roi dau danysgrifiad i mi at YR YMOFYNNYDD yn gwneud cyfanswm o ddau swllt ar bymtheg a chwech. Oni charech eu gwneud yn swm mwy crwn?" "Carwn, carwn," oedd ei ateb caredig, "mi a roddaf i chwi hanner coron arall." Gresyn na byddai mwy o'i fath.

Teyrngarwch. Yr oedd ei loialti hefyd yn ddi-derfyn—pa un ai i gyfaill ynte i achos. Yn hyn ymdebygai i'w chwaer. Nid oedd snobri yn ei gyfansoddiad. Cyfeillachai a gwreng a chyfoethog yn ddiwahaniaeth heb golli ohono ei urddas na'i ben. Yr oedd ganddo ei hoff weithwyr yn y mannau y bu yn byw ynddynt, a chai'r saer a'r garddwr le anrhydeddus ganddo yn ei dy unwaith y mabwysiedid hwy. Yr oedd ei barch atynt a'i ymddiried ynddynt yn fawr a'r eiddo hwythau yn ddi-ball ato yntau. Os am syniad am ei le ym mywyd ei ardal gofynnwch i Bostfeistr pentref y bu yn byw ynddo neu i'r saer, a chwi a synnwch at eu gwrogaeth parchus iddo. Holwch ddynion ifainc lawer a ddaliant safleoedd da—rhai fu unwaith dan ei nawdd—a chwi a ddeallwch. Ni bydd eisiau tystiolaeth well. Gwrandewch ar ddarn o lythyr a dderbyniais wedi ei farw.—

> "I believe I read once about the passing away of William the Silent—'and the little children cried in the streets': it will be even so in many a street in Wales, for Mr. George Eyre Evans was everybody's friend—especially the little children's."

Ni anghofiai G.E.E. ei *proteges*—ei blant maeth fel petai—na hwythau eu cymwynaswr. Gyrrai'n aml newyddiaduron neu rywbeth arall i fechgyn a adawodd eu cartrefi gan ymsefydlu mewn trefi a gwledydd dieithr: y mae rhai ohonynt yng ngwlad eu genedigaeth ac eraill mewn gwledydd tramor yn hiraethus iawn o golli cyfaill mor drwyadl.

Yr unrhyw nodwedd a welid yn ei berthynas ag achos. Dyma a ysgrifennodd un a'i adwaenai yn dda—

"Y mae fy hiraeth yn ddwfn o glywed am farw Mr. G. Eyre Evans. Gwn y pair alar personol i chwi a Mrs. Jones, a bydd yn golled ddifrifol i Barcyfelfed. Yr oedd ei deyrngarwch i Barcyfelfed yn rhyfeddol a'i haelioni hefyd cystal a hynny. Fe deimlir yn fawr ei golli. Ni chytunwn bob amser a'i farn na'i ymddygiad a bu llawer anghydwelediad rhyngom, ond er gwaethaf popeth mi a'i hoffwn. Yr oedd mor ddiniwed a phlentyn ac mor faddeugar wedi i ni anghytuno."

Y noson cyn ei farw gyrrodd swllt i un o ddinesyddion Caerfyrddin i sicrhau *poppy* iddo —gweithred hardd, ystyriol mewn cytgord llwyr a'i ofal tyner a chyson am eraill.

Ysgrifennodd dro'n ôl y byddai ar ôl oes hir, ddedwydd iawn, farw mewn tangnefedd a phob dyn heb fod yn ymwybodol iddo niweidio neb yn fwriadol. Yn ei afiechyd olaf pan oedd arwyddion amlwg fod ei yrfa ddaearol yn tynnu i'r terfyn, ac yntau yn sylweddoli hynny, dywedodd wrthyf fwy nag unwaith "*I am quite happy*."

Wrth feddwl am G.E.E. rhed fy nychymyg yn ôl at Syr Christopher Wren, y pensaer enwog a luniodd Eglwys Gadeiriol St. Paul ac adeiladau enwog eraill. Bu efe farw yn ei gadair wedi iddo orffen pryd o fwyd. Dyna'n union, os cofiaf yn iawn, a ddigwyddodd i dad Eyre Evans wedi iddo gyrraedd yr unrhyw oedran teg. Bu farw ein cyfaill hefyd bron mor ddisyfyd. Fore ei ymadawiad cododd o'i wely ac yn ddigymorth aeth i'r *bathroom* i ymolchi. Syrthiodd yno a bu farw bron ar unwaith a gwên ar ei wyneb ym mhresenoldeb un a ofalodd yn hir am ei gysur. Dyna farw gogoneddus—yn ddiboen, mewn tangnefedd â phawb a heb yn wirfoddol niweidio cyd-ddyn.

Ar garreg fedd Wren yn Eglwys St. Paul ceir arysgrif Ladin, o'i chyfieithu a ddywaid, "Os cofadail a geisi edrych o'th amgylch."

Os mynnwch gofadail i G.E.E. edrychwch ar ei lafur dibaid, peth ohono wedi ei gorffori mewn llyfrau, a llawer yn ystafelloedd Amgueddfa odidog Caerfyrddin y bu ganddo gymaint ran yn ei sefydlu a'i pherffeithio ; edrychwch i'r Llyfrgell Genedlaethol am y cannoedd llyfrau ac ysgrifau gwerthfawr a drosglwyddodd iddi ; sylwch ar lwyddiant llu o fechgyn tlawd y bu ef yn gyfarwyddwr ac yn noddwr iddynt. Pa gofiant gwell a ddymunai neb ?

Heddwch i ti, gyfaill pur, a fuost yn gydymaith teilwng a chynorthwyol i lawer a wel eisiau dy wyneb rhadlon a'th law garedig. Yn iach am ennyd fach. Diolch am dy air calonogol "carry on." Hynny a geisiwn wneud yn hyfrydwch y cof amdanat.

Ti a gyfoethogaist y ddaear. Da was.

Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion.

GAN Y PARCH. E. O. JENKINS.

DYMA bennawd llyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y cyfaill ffyddlon, Mr. W. S. Jones, Prifathro Coleg Presbyteraidd, Caerfyrddin, a dyma lyfr y carwn ei gyflwyno'n gynnes iawn i sylw aelodau'n cynulleidfaoedd. Ymddangosodd grym cynnwys y llyfr yn benodau misol yn yr YMOFYNNYDD dro'n ôl, a chofiaf yn dda'r pleser a'r mwynhad o'u darllen, ond nid tebyg ydoedd i'r mwynhad a gefais o ddarllen y cyfan yn un llinyn heb roi'r llyfr o'm llaw—gwir fwynhad a ddeffrodd atgofion melys a thyner iawn i mi.

Ni wn am neb a gwell hawl ganddo i draethu ar y llyfr hwn na mi canys, ac eithrio rhyw dri neu bedwar, cofiaf, a chofiaf yn dda, am bob un o'r cymeriadau annwyl y sonnir amdanynt.

Prif gymeriad y llyfr yw'r diweddar Barch. R. C. Jones, tad yr awdur. Am flynyddoedd bu'n teulu ni'n byw drws nesaf i gartref Mr. Jones, ac efe oedd berchennog ein tŷ. Yr oedd ef a mam yn gefnder a chyfnither, ac anfynych iawn yr ai diwrnod heibio heb iddo ddod i'n tŷ trwy ddrws y cefn i gael sgwrs gyda mam ac i ymgynghori â hi ynglŷn â gwahanol faterion. Llawer gwaith y clywais ef yn gofyn, " Beth i chi'n feddwl te, Marged ? "

Deellais yn gynnar fod ganddo feddwl uchel o mam ac ymddiriedaeth yn ei barn ; mewn canlyniad euthum innau i feddwl yn uchel amdano yntau. Yr oedd y parch a dalai i farn fy mam yn ennyn parch ynof innau tuag ato.

Ni ddywed awdur y llyfr ond ychydig na wyddwn o'r blaen am ei dad, ond teimlaf iddo adael allan doreth o bethau y gallesid eu dweud, a thrwy hynny ychwanegu at werth y llyfr. Paham y gadawyd allan y ffaith ganlynol ? Yr oedd R. C. Jones yn hoff o fygyn, er iddo roi'r arferiad i fyny rai blynyddoedd cyn ei farw. Yr oedd y mab y pryd hwnnw nid yn unig yn ddirwestwr ond yn wrthysmygwr pybyr hefyd, a gwrthodai fynd i'r siop i gyrchu baco i'w dad. Pan ballai gofynnid i mi a oedd a chydwybod dipyn mwy ystwyth wneud y neges. Sonia'r awdur am y poni. Cofiaf am dair, a chofiaf am dro neu ddau digon difyr ynglŷn ag un ohonynt.

I mi yr oedd R. C. Jones wedi ei alw i fod yn bregethwr. Apeliai gwasanaeth crefyddol a phregeth ataf yn gynnar, a chredaf y medrwn werthfawrogi pregeth a gwahaniaethu rhwng pregeth a phregeth yn ddeuddeg oed, ac efallai cyn hynny. Pregethu ar *themes* yr oedd ef. Arfer rhai pregethwyr yw dal ar eiriad adnod neu frawddeg y testun ; trin y testun yng ngoleuni'r cysylltiadau ; dal ar bob cymal, ac efallai ar bob gair, yn y testun, a thraethu arnynt. Y mae rhai'n feistri ar y teip hwn o bregethu, a gallant

fod yn ddiddorol ac effeithiol iawn. Nid ar eiriad y testun y daliai Mr. Jones ond ar y mater neu'r *theme* a awgrymid gan y testun, ac yn ddieithriad *themes* mawr ac aruchel oedd ganddo. Weithiau cai'r testun fynd i'r gwynt, ond arosai'r *theme*, ac ai'n amlycach o funud i funud. Pwysleisiai'n barhaus fod *gwerthoedd* heblaw eiddo'r byd hwn ; fod dyn yn greadigaeth fawreddog ac ynddo bosibiliadau mawr ; mai'r ysbrydol ynddo sydd o wir bwys. Cofiaf bregeth gref ar " anghofio'r pethau o'r tu cefn," ac un arall ar " ysbryd yw Duw a rhaid i'r rhai sy'n ei addoli ef addoli mewn ysbryd a gwirionedd."

Dywedir am rai pregethwyr mai ar fore tawel hyfryd o wanwyn neu haf y clywid hwy ar eu gorau. Y mae mwynder a llonder y bore'n tynnu allan y gorau ohonynt. Yn ôl yr argraff sy'n aros yn fy meddwl, fel arall yn hollol yr oedd R. C. Jones. Os am ei glywed ar ei orau a'i gael wedi ymgolli'n llwyr yn ei neges, bore oer, gorau i gyd po oeraf, o aeaf amdani. Gwelaf ef y funud yma'n sefyll ym mhulpud yr *hen* gapel (Brondeifi), a'i got fawr amdano, a darn o goler honno'n sefyll ar i fyny.

Wedi codi testun rhybuddiai ni mai pregeth fer a oedd i ddilyn. Yn ei awydd i fod yn fyr ai ati'n fwy bywiog a chyflym nag arfer, a byddai'r bywiogrwydd cynnar yma'n ei wresogi at ei fater, a gwyddwn cyn pen tair munud fod rhywbeth o wir werth i ddilyn. Heb yn wybod iddo'i hun ai'r bregeth fer yn bregeth hanner awr a deugain munud, a neb yn teimlo ei fod yn rhy faith. Ar fore felly pregethai'n ei afiaeth, gyda grym a gwres, a deuai rhyw angerdd i'r traddodi na cheid mohono ar adegau ereill. Wrth wrando arno'n yr hwyl yma anghofiais lawer gwaith ei bod yn fore oer, fod rhew ac eira ar y ddaear. Un o'i arwyr fel pregethwr oedd Henry Ward Beecher. Soniai amdano, a dyfynnai o'i lyfrau'n fynych. Yn ddiweddarach soniai'n aml am Stopford A. Brooke. Pregethwyr ar *themes* mawr oeddent hwythau.

Balch ydwyf o'r darluniau sy'n harddu'r llyfr, ac yn ei wneud mor werthfawr. Cofiaf y mwyafrif ohonynt yn dda, ac y mae gennyf barch mawr i'w coffadwriaeth. Diolch am y darlun o fam yr awdur. Ymyla ar fod yn ddarlun perffaith. Cofiaf y rhan lydan yn y gwallt a'r ddau lygad du, byw, ymchwilgar. Cofiaf y *cape* a'r *frills* sydd ar y war, ac hyd yn oed y *brooch*. Wedi i W. S. Jones adael cartref bum i'n rhedeg negeseuau a " mofyn y poni " lawer, lawer gwaith, a chawn fy nhalu bob tro—am neges bychan, rhwydd ei gyflawni, ceiniog ; am neges mwy ai'r tâl i fyny hyd chwe cheiniog. Cofiaf i mi un tro gael swllt am actio'r gyriedydd iddi i gyrddau chwarter yng Nghapel y Bryn. Wrth estyn y tâl, ai ceiniog neu fwy, gofynnai'n fynych, " Beth i chi'n mynd i neud a hi ? " Deallwn y pwrpas, ac atebwn yn syn, " Ei rhoi gadw." " Da machgen i," meddai hithau, " gofalwch chi am y geiniog, ac fe ofala'r bunt amdani ei hun." Un gynnil oedd hi, nid un glos,

ond un gynnil, ofalus a darbodus. Iddi hi yr oedd gwastraff yn ddiffyg poenus.

Cofiaf yn dda ddau beth ynglŷn â hi. Gan fod ei phriod yn gefnder i mam yr oedd yn awyddus iawn i mi alw "ewythr" arno. Mynych y dywedodd wrthyf, "Mae'ch wncwl . . . fel a'r fel." Y peth arall a gofiaf mai Watkin y galwai hi ei mab, ac yr oedd ganddi ei ffordd ei hun o swnio'r enw. Credaf ei bod yn hoff iawn o'r enw, ac os deellais yn iawn rhowd yr enw arno ar ôl perthynas agos iddi hi—sef Watkin Jones, Tynlofft, Silian. Watkin hefyd ydoedd enw tadcu'r awdur.

Bu'n ffyddlon anghyffredin gyda'r cwrdd plant ar hyd blynyddoedd bore f'oes. Cymrai ni mewn hanesion Beiblaidd a meysydd ereill, a chymrai'r gwr caredig, hawddgar, D. T. Davies (tad L. Terwyn Davies) ni gyda'r *Modulator* a'r canu, ac athro ardderchog ydoedd. Yn y canu, er mai efe oedd yr ieuengaf bron ohonom, David Jones, Drefach House oedd ein meistr ni i gyd. Sugnai i mewn bopeth a ddywedid wrtho am drawsgyweiriad, chwarteri, haneri, a thrichwarteri gyda'r rhwyddineb a'm gwnai'n eiddigeddus iawn ohono. Credaf y gellir olrhain ei allu i gyfansoddi tonau cynulleidfaol heddiw i lafur ac amynedd D. T. Davies yn y cwrdd plant ym Mrondeifi.

Sonia'r awdur am ei chwaer, iau nag ef, Jane Bertha. Y tu allan i gylch y teulu credaf mai fi oedd ffafryn hon, a geneth annwyl, annwyl ydoedd. Yn ei hafiechyd maith dangosodd amynedd fel amynedd angel, a bron na theimlwn weithiau mai un o wehelyth yr angylion ydoedd. Yn amser ei hafiechyd cynnar, cyn iddi fynd yn wir wael, pe bai'r tad a'r fam am fynd oddicartref gyda'i gilydd, i roddi tro am berthynasau neu fynychu'r cyrddau chwarter, caent fynd ar y telerau fy mod i'n mynd drosodd i gadw cwmni iddi. Treuliais oriau lawer yn ei chwmni felly, a'n dull o dreulio'r amser yn ddieithriad ydoedd chware *dominoes*. Hoffai'r gêm hon, ac ni flinai ar dair i bedair awr o chware.

Cofiaf bryder y tad a'r fam wedi i'r afiechyd gydio'n drwm a'r argoelion gwella'n ymbellhau. Cofiaf iddynt feddwl cael y Dr. Alabone y sonnir amdano'n y llyfr i'w gweld, er nad oes gennyf gôf iddo ddod chwaith. Cofiaf ei marw a dydd ei hangladd. Cofiaf wroldeb y fam, ond y tad bron ymollwng yn ei hiraeth ar ei hôl. Cofiaf ei deithio i Ferthyr Tydfil i chwilio cysur oddiwrth ysbrydegwyr, a'i ddychwelyd o'r daith honno'n ddyn newydd ; y llesgedd a'r galar wedi mynd ac yntau'n sicr yn ei feddwl fod Jane Bertha nid wedi darfod â bod, ond yn fyw, a bod yn bosibl iddynt ill dau ddal math o gymundeb a'i gilydd. O hyn ymlaen ceid nodyn newydd yn y pregethu. Cofiaf i un o fyfyrwyr Coleg Llanbedr, a letyai'n yr ymyl alw yn Ogmore House i ddatgan ei gydymdeimlad ac iddo roddi'n llaw'r tad benillion coffa a gyfansoddwyd ganddo, ac iddo egluro pwy ydoedd—sef mab Job Davies, Llan-

dybie, y Parch. D. Ifor Davies, gweinidog cynulleidfaoedd Glanrhondda a Chlydach Vale wedi hynny. Geneth ddel fel angel oedd Jane Bertha.

A beth am y darluniau ereill a geir yn y llyfr? Cofiaf hwynt bron bob un. John Davies, Lleinau—os cofiaf yn iawn teiliwr oedd ef, a gwisgai, i'm tyb i, yn fwy trwsiadus na'r mwyafrif o'i gydaelodau. Eisteddai yng ngornel y sedd fawr, ac i mi'n blentyn efe oedd oracl y gynulleidfa. Gallesid dweud amdano "ei gyngor a saif." Pan godai i ddweud a feddyliai ar ryw fater siaradai'n glir gan dueddu i fod ychydig yn bendant, a gorffennai gyda "Dyna fy marn i, ond gwnewch chi fel 'rych chi'n gweld orau." Mabwysiedid ei awgrym ef y rhan fynychaf. Er yn fyw iawn i'w werth a'i wasanaeth cofiaf na allwn wasgu'n agos ato—rhyw Elias neu Eliseus oedd i mi.

Dyn pur wahanol oedd David Davies yr Hwper. Pe cawn awn i gôl hwn. Dyn craffus ei feddwl yn medru traethu ei farn ei hun ar bopeth yn glir a hapus rhyfeddol, dyn y gwrandawai'r gynulleidfa ar ei weddïau dwys a chai fudd mawr drwy hynny, dyn o feddwl cryf ac ewyllys, er hynny deuai'n agos iawn atom ni'r plant, a gwasgai'r plant ato yntau. Nid oedd arnaf ofn David Davies ond ofn ei siomi, a gwledd i'r meddwl—a mwy na hynny—oedd cael bod yn ei ddosbarth. Yn fwy na neb arall efe a agorodd y drws i mi weld trysorau'r Beibl, a phlannodd ynof barch dwfn i'r Beibl. I'm clustiau i y mae acenion ei lais a'i weddi'n aros o hyd.

Un arall a wnaeth fyd o ddaioni i mi'n blentyn, ar ei aelwyd yn Drovers Road yn ogystal ag yn yr Ysgol Sul a'r cyrddau ereill ym Mrondeifi, oedd Daniel Jones (Dan Doctor). Ni feddai ar y cryfder a nodweddai'r ddau a enwyd eisoes. Ni feddai ar eu rhwyddineb i ddweud ei feddwl, ond yr oedd yn dalp o onestrwydd a didwylledd. Tynnai ni'r plant i wasgu ato gan mor lednais ei ysbrydd. Os edrychem ar David Davies fel tad y gallem gael cysgod yn ei ymyl, edrychem ar Daniel Jones fel brawd, rhyw frawd hynaf i'n harwain. Ni anghofiaf byth ei ymdrechion gyda ni yng nghyfarfodydd gweddi'r bobl ifainc. O ran ei arddull a'i ysbryd ar weddi yr oedd yn gymaint o grwt ag un ohonom ninnau. Yr oedd huodledd a grymuster David Davies yn eisiau, ond yr oedd naturioldeb a dwyster a thaerineb Daniel Jones yn gwneud i fyny am y diffyg. Y pryd hwnnw yr argraff ar fy meddwl oedd na allai'r Brenin Mawr ddim llai na gwrando arno ef. Y mae'r atgofion am y ddau yma wedi bod megis angylion gwarcheidiol i mi ar hyd y blynyddoedd.

William Hefin Williams.—Nid oes eisiau ymhelaethu ar ffyddlondeb a gwasanaeth hwn i Frondeifi a'r enwad, ond dywedaf hyn. Gwelais ef yn cael ei dramgwyddo weithiau. Bryd arall cymerai ei dramgwyddo'n ddiachos, ond ni chai hynny byth ymyrryd a'i ffyddlondeb i'r gwasanaeth a'r Ysgol Sul a'r canu. Dilynai'r cyfan yn ddifwlch, a charai'r lle a'r achos.

Sonia'r awdur am ddireidi Griffith Jones Davies, Penlan, ond beth am ddireidi mwy tawel ac ysmaldod ei fam, Shân ?

Diolch i'r awdur am ddod a nifer o enwau ereill i mewn. Gan fod blynyddoedd lawer er pan fu farw rhai ohonynt y mae yna berigl iddynt gael eu llwyr anghofio.

Gwresogai fy nghalon o weld enw Samuel Davies, Coedparc. Cofiaf ef a'i deulu, lond cerbyd ohonynt, yn dod yn rhyfeddol o gyson ar hyd y blynyddoedd. Er ei wneud yn ddiacon gwrthododd adael ei sedd am y sedd fawr.

William Davies, 'Refail-fach, y dyn distaw yng nghornel y sedd fawr, y dyn diniwed ei feddwl a'i ysbryd, y ddau air a'i ffitiai orau fyddai ffyddlondeb a diniweidrwydd.

John Rees, Talfoel.—Cadarn o gorff a chadarn o feddwl. Cadwai ei feddwl iddo'i hun y tu fewn i furiau'r capel.

Tom O'Connell.—Gwr difyr ei acen ar gyfrif ei lediaith, un a gai flas mawr ar ateb pwnc a sefyll dros ei biniwn.

Daniel Jones, y gwehydd. Cof gwan sy gennyf amdano, ond gwn am ei wasanaeth i ganu'r gynulleidfa, a chofiaf yn dda ddull medrus, clir, ac effeithiol ei fab, Lewis Jones, wrth holi'r bennod yn yr Ysgol ac yn y Gymanfa. Cofiaf fod ei ferched, Jane (Mrs. Price) a Margaret (Mrs. Davies) ymhlith sopranos llawn y gynulleidfa, a Mrs. D. T. Davies (mam Terwyn Davies) yn ddigon o alto ynddi ei hun i gôr lluosog.

Cofiaf amryw deuluoedd ffyddlon ereill—Temperance House ; Carrara House ; eiddo Lewis Jones, Glandulas Terrace ; Arthur Price ; Thomas Davies, Drovers Road ; D. Davies, Peterwell Terrace ; Timothy Evans ; Rhoslwyn ; Postgwyn ; Talfoel ; Coedmorfawr ; Gilgell ; Taliesin ; Frowen—ond beth dal enwi ? Digon dweud fod gennyf atgofion hyfryd iawn amdanynt hwy a llawer ereill.

Carwn ddweud hefyd cyn gorffen. Cynulleidfa heddychol iawn ydoedd. Ni chofiaf am unrhyw gweryl ac anghydfod ymhlith yr aelodau. Y mae oriel Brondeifi'n un eithriadol o deg a chyfoethog, ei gwaddol yn bwysig a gwerthfawr. Dylai'r genhedlaeth bresennol ddangos egni a ffyddlondeb mawr pe bai ddim ond o barch i'r tadau a'r mamau. Frondeifi ! Bydd fyw byth, a Duw'n rhwydd i ti.

* * *

D.S.—Carwn hysbysu'r cynulleidfaoedd mai ar gais taer llawer o gyfeillion yr ymgymerodd y Prif-athro W. S. Jones ag argraffu'r llyfr hwn. Trosglwyddodd yr awdur werthiad y llyfr i'r Gymdeithas. Efe ei hun sy'n gyfrifol am draul ei gyhoeddi, ond y mae'r elw o'i werthu'n mynd i Drysorfa'r Gymdeithas. Anturiaf ar ran y Gymdeithas gyflwyno diolch cynnes iddo am yr arwydd pellach hwn o'i serch at yr achos a'i barodrwydd i wneud a allo drosto. Awn ati o ddifrif i werthu'r llyfr, a thrwy hynny ychwanegu at y cyllid. E.O.J.

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1939–40.

Trefnwyd gan Mr. D. Emrys Rees, B.Sc. a Mr. T. Bryn Jones, B.Sc.

SAFON I. (o dan 8 oed).

A.—Gwers : Darllenwch y wers yn ofalus ac yna atebwch y cwestiynau ar y diwedd :—

Er mwyn lledaenu'r sôn am Deyrnas Dduw galwodd Iesu ddeuddeg o ddynion i'w helpu. Galwodd hwy'n ddisgyblion. Yr oedd yn rhaid eu dysgu hwy'n gyntaf. Bu Iesu yn Athro da arnynt am dair blynedd a dysgodd y disgyblion eu gwersi. Wedi hynny daeth y disgyblion yn athrawon eu hunain i ddysgu pobl eraill, ac felly gwasgarwyd yr Efengyl.

Simon, Iago, ac Ioan oedd y tri chyntaf a alwyd yn ddisgyblion iddo. Morwyr oeddynt. Fel rheol, y mae morwyr yn ddynion dewr, a mynnai Iesu ddynion dewr i bregethu syniadau mor newydd. Gwyddai fod mwy o berigl i bregethu Teyrnas Dduw na physgota ar Fôr Galilea. Y nesaf i fod yn ddisgybl oedd Publican o'r enw Mathew.

Ar ol hyn aeth Iesu i'r mynydd i weddïo am help Duw i ddewis y gweddill o'r disgyblion, a thrannoeth gwnaeth hynny'n hawdd. Er hynny cafodd Iesu siom fawr yn un ohonynt, sef Iwdas Iscariot. Bradychodd hwn Ef yn y diwedd.

Aeth Iesu a'i ddisgyblion gydag Ef o fan i fan ar hyd a lled y wlad. Dyna ffordd ryfedd o gadw ysgol ! Er bod y gwersi yn galed iawn i'w deall yr oedd gan yr Athro ffordd dda i'w dysgu. Dywedai storïau am ddefaid, y gwinwydd a'r meysydd. Gelwir yr ystorïau hyn yn ddamhegion.

B.—Cwestiynau :—

Faint o ddisgyblion oedd gan Iesu Grist ? Enwch rai ohonynt. Pa beth a ddysgai'r Athro iddynt ? Paham yr oedd eisiau disgyblion arno ? Sut y daethant i wybod am Deyrnas Dduw ? Am ba faint o amser y bu Iesu yn dysgu'r disgyblion ? Pa beth a fu'r disgyblion yn wneud wedi gorffen eu gwersi ? Pwy oedd y tri disgybl cyntaf ? Pa beth oedd eu gwaith ? Ar ba fôr y pysgotent ? Paham yr oedd eisiau dynion dewr ar Iesu ? Pa beth oedd gwaith Matthew ? Sut y cafodd Iesu help i ddewis y gweddill ? Pa faint oedd rhif y gweddill ? Pa beth oedd enw'r disgybl a siomodd Iesu ? Pa beth a wnaeth ef i'w Athro ? A gadwai'r Athro ysgol mewn un lle ? Sut ysgol oedd ganddo ? A oedd y gwersi yn hawdd ? Sut y gwnaeth yr Athro ei wersi yn eglur ? Beth yw damhegion ? Pa beth yw gwinwydd ?

C.—Dysgu ar gof :—

Ail bennill o Emyn 469 *Perlau Moliant.*

SAFON II. (o 8 i 12 oed).

A.—Gwers : Darllenwch Pennod V o " Hanes Iesu i Blant " (T. O. Williams, M.A.), yn ofalus ac yna :—

B.—Cwestiynau :
Atebwch y cwestiynau ar y bennod a ymddangosodd yn yr Ymofynnydd am Tachwedd, 1938.

C.—Dysgwch ar gof :
(*a*) Ail bennill Emyn 469 *Perlau Moliant.*
(*b*) Matthew : Pennod III, adnodau 11 a 12.

SAFON III. (o 12 oed i fyny).

A.—Gwers :
Darllenwch Pennod VIII o " Hanes Iesu i Blant " (T. O. Williams, M.A.), ac yna atebwch y cwestiynau hyn :—

B.—Cwestiynau :
Pa beth oedd gair mawr Iesu ? Pa beth oedd testun ei bregethau ? Pa le y mae Teyrnas Dduw ? Pa fath deyrnas yw ? Pwy yw pen y deyrnas ? A yw Teyrnas Dduw wedi dod eto ? Pa bryd y daw Teyrnas Dduw ar y ddaear ? Enwch rai pethau nas ceir yn y Deyrnas ? Pwy yw'r unig rai a gaiff fynd i mewn iddi ? Am ba beth y mynnai'r cyfreithiwr wybod gan Iesu ? Pa beth oedd ei gwestiwn ? Pa beth oedd ateb Iesu iddo ? Pwy a ddylem garu yn gyntaf ? Pwy arall a ddylem garu ? Pa beth a bwysleisiai Iesu ? Pa beth a ddysgai i bawb ei wneud ? Pa beth oedd amod Iesu cyn cael maddeuant ? Pa grefydd a ymarferai'r Iddew cyn amser Iesu ? Pa beth oedd y rheol gyda'r hen grefydd ? Pa fath efengyl a roddodd Iesu yn lle'r hen un ? Pa beth oedd y rheol aur a ddysgodd Iesu i'r byd ? Pa achwyniad a ddygid yn erbyn gorchymyn Iesu ? Pa beth a fyn pobl wneud i rai a wna ddrwg iddynt ? Pa beth sydd ar goll gan ddynion pan fynnont ddial ar ei gilydd ? Pa beth oedd gorchymyn newydd Iesu ? Pa un oedd pregeth fawr Iesu ? Pa beth a hoffai'r Iddew wneud yn aml ? Paham y gweddïai'r Iddew ? Pwy oedd y ddau a weddïai yn y stori a ddywedodd Iesu ? Sut weddi oedd gan y Pharisead ? Pa beth oedd gweddi'r Publican ? Pa beth sydd yn bwysig mewn gweddi ? Pwy a fu Iesu yn ddysgu i weddïo ? Ym mha le y dywedodd wrthynt am weddïo ? Pa weddi a ddysgodd iddynt ?

C.—Dysgu ar gof :
(*a*) Y Bregeth ar y Mynydd o " Gwyn eu byd y tlodion . . ." hyd " Gwyn eu byd y rhai a erlidir . . .".
(*b*) Ail bennill Emyn 469 *Perlau Moliant.*

Daliadau'r Undodiaid—a Phaham

Gan y Parch. G. J. Sparham, Bryste.

[*Parhad o dudalen 157*].

Pechod a Maddeuant.

Drwg-weithredu ydyw troseddu yn erbyn egwyddorion moesol Duw; pechod, yn ôl syniad yr Undodwr, ydyw gwneud rhywbeth o fwriad y gwyddom ei fod yn rong. Ni feddylia'r Undodwr y gall Eglwys, neu hyd yn oed farwolaeth Crist, brynu drosom faddeuant pechodau. Ni chredant y gall un dyn ddwyn baich yr euogrwydd am bechod rhywun arall. Gorffwys yr euogrwydd ar y person sy'n cyflawni'r pechod: cydnabyddant wrth gwrs, y gall mwy nag un person fod yn euog o'r pechod. Cydnabyddant hefyd y gall y pechod sarnu bywydau y rhai sy'n ddieuog ohono.

Adfer cysylltiadau cywir rhwng dau berson yw maddeuant. Tardd maddeuant Duw yn naturiol o'i Gariad Tadol, ac y mae'n rhad i bawb sy'n ei geisio mewn gwir edifeirwch ac mewn ymdrech ddidwyll i geisio byw'r bywyd da.

Nefoedd ac Uffern.

Nid lleoedd ond cyflyrau, neu brofiadau ydynt, yn y bywyd hwn neu'r bywyd y tu draw i'r bedd.

Edrych yr Undodiaid ar y bywyd y tu draw i'r bedd fel parhad o'r bywyd yma. Edrychant arno nid fel gwobr neu gosp ond fel cyfle i adnewyddu gwasanaeth a derbyn profiadau helaethach. Anghredadwy iddynt hwy yw'r syniad y cospir unrhyw ddyn yn dragwyddol am bechodau a gyflawnwyd yn ystod ychydig o flynyddoedd ar y ddaear. Ni allant gredu y bydd i bwrpas a chariad achubol Duw fethu.

Gweddi.

Daliant mai cymundeb â Duw yw gweddi, nid yn unig siarad â Duw ond disgwyl hefyd yn dawel wrtho am ei air a'i nerth. Credant y dylai dynion weddïo—nid i gymell Duw i drefnu yn ôl eu dynuniadau hwy ac i blygu ei ewyllys yn unol a'u mympwyon, yn hytrach gweddïant er mwyn rhoddi i ewyllys Duw bosibiliadau newydd i weithredu, er mwyn ceisio deall ewyllys Duw, a'u cyfaddasu eu hunain iddi, a'i gwneud yn "ffordd eu bywyd."

Ymarweddiad.

Deil yr Undodiaid fod syniadau cywir am Dduw a bywyd yn wir bwysig, ond y peth pwysicaf, o safbwynt crefydd, yw bywydau dynion, nid eu hopiniynau.

Y "bywyd da" yw'r peth y dylai pawb o ewyllys da gytuno arno. Dyma sylfaen undeb crefyddwyr. Dywedai John Woolman,

y Crynwr, " O'r un grefydd y mae pob dyn da." Nid oes fyneg-iant gwell o safbwynt yr Undodwr na hwn. Cyfieithu crefydd yn fywyd daionus ac iawn, yn unigol, yn gymdeithasol, yn economaidd, yn genedlaethol, yn rhyngwladol—dyna bwnc pennaf crefydd yr Undodwr.

DUW.

Cred yr Undodwr mewn Un Duw, yr Ysbryd Tragwyddol, oddiallan ac ynom, y Tad Mawr. Oherwydd prydferthwch a daioni ei fywyd credant fod Duw'n siarad yn Iesu. Credant fod pawb yn blant iddo ef, a'i fod yn llefaru, mewn graddau o berffeithrwydd, trwy holl arweinwyr ac ysgrifeniadau crefydd, o bob llwyth, ac iaith, a chyflwr gwareiddiad. Credant ei fod yn siarad yn y byd aniannol, yn enwedig ym mhopeth sydd wir a daionus a phrydferth, yn anian, mewn miwsig, celfyddyd, llenyddiaeth, a gwybodaeth. Credant hefyd ei fod yn llefaru wrthym ym mhob meddwl da a phrofiad a gweithred yn ein bywydau unigol, ym mhob chwalfa a phraw cymdeithasol yn mywyd cenhedloedd, ac yn enwedig ym mhopeth sy'n cymell dynion i gydnabod yr angen am drefnu'r byd fel y bo heddwch a bywyd llawn a gwell i'r ddynoliaeth yn cael cyfle.

Dyma'r rhagolygon sy'n nodweddu Undodiaeth. Tarddant o gymhwyso egwyddor rheswm a chydwybod yn ddiofn, ond yn barchus, at y sylweddau ysbrydol. Cred yr Undodwr mai ymgais i fyw yng ngoleuni'r egwyddor hon, fel lamp Duw, ydyw crefydd. Credant, o bydd i ddyn weld y weledigaeth deg, mai ei ddyledswydd ydyw ceisio creu'r weledigaeth honno'n ffaith yn ei *fywyd beunyddiol*. Credant hefyd y gallant ymddibynu ar gymorth Duw'n yr ymdrech. Dyma efengyl Undodiaeth. O'n mewn y mae Teyrnas Dduw, a'n dyledswydd ydyw ymdrechu i ryddhau'r Deyrnas trwy fyw drosti, ac y mae adnoddau Duw o'n plaid. Ein hymdrech ni ydyw cyfle Duw i ddatguddio ei allu.

[*Diwedd*].

FEL IESU GRIST.

Yn y pentref bach lle'th anwyd
Daethost ti yn seren aelwyd
Fel Iesu Grist.

Daeth angylion yno i ganu ;
Doist â'r Nef i'r ddaear genti
Fel Iesu Grist.

Gwylio drosot mae dy fami ;
Dim ond gorau popeth gei di
Fel Iesu Grist.

Bellach 'rwyt ti wedi prifio ;
Daw gofidiau bach i'th flino
Fel Iesu Grist.

Bydd yn ddewr a gwna dy orau,
Y mae Tad o'r Nef i tithau
Fel Iesu Grist.

Pan ddel troeon byd i'th rwystro
Tro yn dawel i weddio
Fel Iesu Grist.

Dangos gariad i elynion,
Yna cei drwy'r byd gyfeillion
Fel Iesu Grist.

Gwna'n adduned ddydd Nadolig
Y bydd iti fyw yn debyg
I IESU GRIST.

Tregroes, Llandysul. D. JACOB DAVIES.

" A'R DYDD YN BYRHAU."

Paham, O Ddydd, y rhoi dy le mor gynnar
I'r noson faith a'i dirgel leisiau lu ?
Paham yr ildi d'orsedd wen ddigymar
Mor glau i frenin braw'r tywyllwch du ?

A flinaist ti ar drwst a ffwdan daear,
A dyn at ddyn yn sennu yn ddibaid,
A gwlad at wlad yn taflu saethau'n anwar,
A'r gynnen sy'n parhau rhwng plaid a phlaid ?

Hiraethaf am yr oriau mwyn a melys,
A'r llwybrau gwyn a gerddwn gyda chân,
Wrth ymbalfalu ar fy nhaith yn ofnus,
Neu'n trwsio'r lamp wrth olau gwan y tân.

Ni chlywir 'nawr y fronfraith ar y gangen
Yn tiwnio'i thelyn fechan mewn mwynhad,
A'r gwcw lwydlas gyda'i deunod llawen
A giliodd draw i lannau tecach gwlad.

Llwm ydyw'r coed, eu gwedd i gyd yn llwydaidd,
A'u dail fel mantell lwytgoch ar y llawr,
Y blodau'n wyw, a'r gwynt yn chwythu'n oeraidd,
A niwlog len yn cuddio gwenau'r wawr.

* * *

" Ti wyddost, Ddyn, fod hamdden wedi'i threfnu
I bopeth *weithia* yn y cread mawr ;
Rhof gyfle 'nawr i'r ddaear ymlonyddu ;
Dos dithau, Ddyn, a gorffwys ennyd awr."

Llanelli. A. Rees.

Priodasau.

Tachwedd 6, yng Nghapel Pantydefaid, PERCY DAVIES, Treforus, a SARAH (SALLY) EVANS, Felin Rhydowen. Yn absenoldeb gweinidog y lle gwasanaethwyd gan y Parch. E. O. Jenkins. Gweinyddwyd wrth yr Organ gan Mrs. Davies, Faerdrefach. Hir oes a chysur iddynt.

Tachwedd 11, yng Nghapel Cribyn, JOHN HOPKIN DAVIES, Tanrallt, a RACHEL MARY EVANS, Tegfan. Gwasanaethwyd gan y Parch. E. Griffith Jones. Boed iddynt bob llwyddiant.

Marwgofion.

Hydref 27, yn 48 mlwydd oed, bu farw Mrs. MARGRETTA JONES, annwyl briod Mr. Hopkin Jones, Graig Stores, Trebanos. Fel aelodau ereill ei theulu cyfrifid Mrs. Jones yn un o'r ffyddloniaid. Mor frwdfrydig ydoedd dros bopeth a berthynai i'r achos, fel na welwyd yn aml ei lle'n wag yn y capel, yr ysgol Sul, yr ysgol gân, a chyfarfodydd y chwiorydd. Dioddefodd gystudd trwm mewn ysbryd a werthfawrogai bob cymwynas. Yr ysbryd hwn, a oedd mor nodweddiadol ohoni bob amser, a wnaeth iddi gylch helaeth o gyfeillion. Yn ei chystudd cafodd ymgeledd pob anwyldeb, a gwnaeth hithau ymdrech daer i wella—hynny sy'n ychwanegu at ing yr hiraeth amdani. O'i chofio mor heini a bywiog yn y Gymanfa Ganu yn Llanbedr, anodd meddwl iddi ddihoeni mor gyflym. Mynnodd, er ei gwendid, ddod i'r Wyl Dê a'r Basar ym mis Medi, a phryderai'n fawr na allai gymryd ei rhan gyda'r chwiorydd fel arfer. I'w phriod a'i mab, ei chwiorydd a'i brawd, a chysylltiadau lluosog ereill y teulu estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf. Claddwyd wrth Gapel Gellionnen y dydd Mercher dilynol yng ngwydd tyrfa fawr, a gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, Daniel John, Gwynedd Jones, a D. G. Jones.

Hydref 24, ar ôl tair wythnos o gystudd, bu farw RACHEL JONES, annwyl briod Mr. William Jones, Rhydfelen, Pencader, yn 73 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Sadwrn canlynol yng Nghladdfa Gyhoeddus Pencader. Gwasanaethwyd a phregethwyd yn y ty gan y Parch. E. O. Jenkins, a chymrwyd y gwasanaeth wrth y bedd gan y Parch. D. H. Williams, Rhydargaeau. Cafodd angladd parchus iawn, ac yr oedd yn ôl a ddeallwn yn haeddu angladd felly. Gwraig yn meddwl y byd am ei chartref a'i haelwyd oedd hon, yn gymen a darbodus, a phopeth o gylch y ty yn drefnus a glanwedd. Meddai ar synnwyr cyffredin cryf ac ar galon fawr, a phan alwai crwydryn wrth y drws i geisio ychydig fara, cai fara a rhywbeth dros ben, ac ar ben hynny cai air o gydymdeimlad a chalondid ar y daith. Yr oedd yn ddynes a gair da iddi gan bawb a'i hadwaenai. Rhyw Undodiaid ar wasgar oedd hi a'i phriod ar hyd y blynyddoedd, y ddau yn ddarllenwyr cyson o'r Ymofynnydd, a chopi o'r *Perlau Moliant* yn eu meddiant. Buont yn briod am dros hanner can mlynedd, a'r blynyddoedd hynny'n llawn o hedd a diddigrwydd. Boed i'r Nef ei gysgodi ef yn ei unigedd.

Hydref 28, yn 61 mlwydd oed, bu farw MARGARET JONES, annwyl briod Mr. Evan Jones, Dolmaen, Gorsgoch. Yn ystod ei chystudd hir cafodd ofal tyneraf ei phriod, gyda chynorthwy parod ei pherthynasau, ac yn awr y mae efe wrtho'i hun ar yr aelwyd. Gadawodd hefyd ddau frawd a llawer o berthynasau mewn hiraeth ar ei hol. Claddwyd y dydd Iau dilynol yng Nghapel y Fadfa, ei gweinidog, y Parch. S. E. Bowen, gyda chynorthwy y Parch. E. O. Jenkins, yn gwasanaethu.

Nodion yr Eglwysi.

LLUNDAIN.—Cynhelir y GWASANAETH CYMRAEG yn Eglwys Unity, Islington, N.1., ar Ragfyr 3, am 4.15 o'r gloch, pryd y gwasanaethir gan y Parch. T. L. Jones.

CAPEL Y GROES.—Dechreuodd yr adran o Gynghrair y Gwragedd y tymor gwaith gyda gŵyl o dê. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn nesaf: Llywydd—Mrs. Jenkins, Gwarallt; Is-lywydd—Mrs. E. Griffith Jones; Trysorydd: Miss Evans, N.D.D., Ffynnon Fair; Ysgrifennydd—Mrs. Jenkins, Blaenwaun-ganol. Bydd yr adran yn cwrdd unwaith y mis o leiaf yn wyneb yr amgylchiadau.

CAPEL Y GROES A CHRIBYN.—Gwasanaethwyd yn y Cyrddau Diolchgarwch yn y lle blaenaf gan y Parch. E. Gwilym Evans, B.A., ac yn y llall gan y Parch. J. Islan Jones, M.A.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Diolchgarwch ar fore a phrynhawn, Hydref 12, y Parch. E. Griffith Jones, Capel y Groes a Chribyn yn gwasanaethu.

LLWYNRHYDOWEN.—Cafwyd Sosial yma ar Hydref 27, wedi ei drefnu gan yr adran o Gynghrair y Gwragedd. Yr oedd yn noson olau leuad ddymunol iawn, a daeth nifer dda ynghyd. Cafwyd amser difyr a llawen, pob un yn ei hwyliau gorau. Y swyddogion oeddynt—Miss Evans, Llwynmarles, (llywydd); Miss Jennie Davies, Brynclettwr, (trysorydd), Miss Jones, Gellifaharen, (ysgrifennydd).

CAPEL Y FADFA.—Gwasanaethwyd yn y Cyfarfodydd Diolchgarwch fore a phrynhawn Hydref 16 gan y Parch. E. Griffith Jones. Fel yn y Llwyn cafwyd yma hefyd gyfarfodydd lluosog a llwyddiannus. Nid yw pobl Capel y Fadfa wedi anghofio fod Mr. Jones yn ei ieuenctid yn aelod ffyddlon o'r Ysgol Sul ac yn fynychydd cyson o'r cwrdd yma.

LLANDYSUL.—Cynhaliwyd Cyfarfod Diolchgarwch am y Cynhaeaf yng Nghapel Pantydefaid, prynhawn Sul, Hydref 15, Mr. D. Jacob Davies, aelod o'r eglwys a myfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin oedd y pregethwr. Pregethodd Mr. Davies hefyd yng Nghwrdd Diolchgarwch y Graig, Llandysul, prynhawn Mercher, Hydref 25, gydag arddeliad mawr.

I *Ddarllenwyr, Dosbarthwyr* a *Gohebwyr* Yr Ymofynnydd estynnwn ein Dymuniadau Da am y NADOLIG.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

GEORGE EYRE EVANS

(Trwy ganiatad y 'Carmarthen Journal')

Ymof. Rhagfyr 1939